



CYNHADLEDD yr HYDREF 2014



ABERYSTWYTH - 15 TACHWEDD



Ysbrydoli ein Dyfodol Amrywiol: Gallu ac Ymrwymiad


Ydych chi'n awyddus i ddatblygu eich taith wleidyddol gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymru?

Allwch chi helpu i annog a cefnogi menywod, pobl anabl a grwpiau lleiafrifol eraill i gael y sgiliau a'r hyder i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau yn y parti, er enghraift, fel aelod plaid leol, aelod pwylgor newydd, ar bwylgor parti, fel cynghorydd lleol, neu hyd yn oed fel AC, AS, ASE?

Ymunwch â ni ar gyfer hyfforddiant, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth ar ddydd Sul 16 Tachwedd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd y sesiwn yn para dim mwy na thair awr, a bydd yn canolbwytio ar werthoedd ac ein hymrwymiad i gynyddu cynrychiolaeth wleidyddol trwy amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys yr hyn y gall aelodau'r blaidd unigol yn ei wneud i helpu i ennill calonnau, meddyliau a phleidleisiau.

11.30am, MedRus 4, Neuadd Penbryn, Prifysgol Aberystwyth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Brendan D'Cruz, Swyddog Amrywiaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru - brenski69@hotmail.com



CINIO'R CYNHADLEDD

Siaradwr Gwadd:
Y Gwir Simon Hughes AS

Nos Sadwrn, 19:30 yn Hwyr

Gwesty Marine, Rhodfa'r Mor,
Aberystwyth

GWERTU ALLAN

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Cynhadledd y Hydref 2014

Croeso i Aberystwyth ar gyfer ein Cynhadledd. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr Agenda amlinellol ar gyfer y penwythnos, yn ogystal â thestun y cynigion sydd wedi eu cyflwyno. Bydd argraffiad o Gyhoeddiadau'r Gynhadledd yn cael ei gyhoeddi yn y Gynhadledd a fydd yn cynnwys unrhyw newidiadau sydd wedi dod i law.

CYNNWYS:

Amserlen, Sesiwn y Bore

Tudalen: 4

Amserlen, Sesiwn y Pryn hawn

Tudalen: 5

Cynigion Polisi

- CP1. Llywodraeth Leol Effeithiol ac Atebol
- CP2. Buddsoddi mewn Atal
- CP3. Adeiladu Economi Cryfach
- CP4. Ad-dalu'r Diffyg Democratiaidd

Tudalen: 6

Tudalen: 6

Tudalen: 8

Tudalen: 11

Tudalen: 13

Cynigion Busnes

- CB1. Ffioedd Cofrestru i Aelodau ar gyfer Cynhadledd 2015
- CB2. Cadarnhau Penderfyiad gan y Gweithgor
Cenedlaethol i Benodi Cadeirydd ac Aelodau Newydd
i Banel Apelio Cymru
- CB3. Cadarnhau Penodiadau Llwyddol i'r Panel
Adolygu Cyfansoddiadol
- CB4. Gwelliant Cyfansoddiadol:
Swyddog Amrywiaeth - Aelodaeth y Pwllgor
- CB5. Gwelliant Cyfansoddiadol: Prosesau Disgyblu'r Blaid

Tudalen: 15

Tudalen: 15

Tudalen: 15

Tudalen: 16

Tudalen: 17

Tudalen: 17

Sesiwn y Bore

PRIF NEUADD	YSTAFELL 1 (MEDRUS 3)	YSTAFELL 2 (MEDRUS 4)
	09:45 - 10:00	
	AGOR Y GYNHADLEDD: Yr Athro John Last CBE (Llywydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)	
	Mark Williams AS (AS, Ceredigion)	
10:00 - 11:00 PAPUR POLISI: CP1: Llywodraeth Leol Effeithiol ac Atebol	10:00 - 11:00 HYFFORDDIANT: Cyflwyniad i CONNECT <i>Tim Pollard / Ben Hudson</i> Cyflwyniad wych i CONNECT, sut mae'n gweithio, a sut gall y system helpu eich ymgyrch.	10:00 - 11:00 HYFFORDDIANT: HANFODION YMGYRCHU: Adeiladu eich tîm a'i cadw hi wedi ysgogi <i>Richard Cole</i> Derbyniwch y cyngor gorau ar adeiladu eich tîm ymgyrchu a chadw'r cyflymdra i fynd rhwng nawr a'r Etholiad Cyffredinol.
11:00 - 11:45 CYNNIG POLISI: CP2: Buddsoddi mewn Atal	11:00 - 12:00 SESIWN YMGYNGHORI: Cymdeithas lachach a GIG <i>Gryfach</i>	11:00 - 12:00 HYFFORDDIANT: HANFODION YMGYRCHU: Canfod Dosbarthwyr a Chynorthwywyr <i>Richard Cole</i> Derbyniwch y cyngor gorau ar adeiladu eich tîm ymgyrchu a chadw'r cyflymdra i fynd rhwng nawr a'r Etholiad Cyffredinol.
11:45 - 12:00 BUSNES Y BLAID: Cwestiynau ar Adroddiad Grŵp Cynlliad Cenedlaethol Cymru		
12:00 - 13:00 PAPUR POLISI: PM3: Adeiladu Economi Gryfach	12:00 - 13:00 BUSNES Y BLAID: Cwestiynau ar Adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau DRhC Cwestiynau ar Adroddiadau gan Gynrychiolwyr Pwyllgorau Ffederal	10:00 - 11:00 HYFFORDDIANT: Canfasio gyda CONNECT <i>Tim Pollard / Ben Hudson</i> Canfodwch sut gallwch chi ddefnyddio CONNECT i gael y gorau allan o'ch canfasio
	13:00 - 13:45 CINIO	

Sesiwn y Prynhan

PRIF NEUADD	YSTAFELL 1 (MEDRUS 3)	YSTAFELL 2 (MEDRUS 4)
13:45 - 14:45 PAPUR POLISI: CP4: Ad-dalu'r Diffyg Democratiaidd	13:45 - 14:00 BUSNES Y BLAID: Cwestiynau ar Adroddiad Grŵp Senedd San Steffan	13:45 - 14:15 BUSNES Y BLAID: Cyfarfod ALDC Cymru Cyfarfod anffurfiol ar gyfer aelodau'r ALDC yng Nghymru a chyngorwyr nad sy'n aelodau er mwyn trafod sut y gallem well gefnogi cyngorwyr ac ymgeiswyr cyngor yng Nghymru, gwneud mwya o'n gwaith yn berthnasol i aelodau Cymru a thrafod strwythr dyfodol ALDC yng Nghymru.
14:45 - 15:45 TRAFFODAETH a CHWESTIWN AC ATEB: Cymru a'r Undeb: Beth nesaf ar ôl Refferendwm yr Alban? <i>Barwnes Randerson a Kirsty Williams AC</i>	15:15 - 11:00 HYFFORDDIANT: Mewnbynnu Data gyda CONNECT <i>Tim Pollard / Ben Hudson</i> Eisiau dysgu sut i gael eich data canfasio ar CONNECT? Bydd y sesiwn hwn yn dangos i chi'r dulliau gorau, yn ogystal ag awgrymiadau a thriciau er mwyn mewnbynnu'r data yn gyflym a chywir.	14:15 - 15:30 HYFFORDDIANT: HANFODION YMGYRCHU: Ennill Ymgyrch y Pleidlaist Bost <i>Richard Cole</i> Mae angen ymgyrch a strategaeth pleidlaist bost ar bob ymgyrch etholiad sydd am ennill. Mae'n hanfodol ein bod ni'n uchafu'r cyfre i recriwtio ein cefnogwyr i fod yn bleidleiswyr post. Byddwn yn dangos i chi rhai o'r awgrymiadau gorau i wneud hyn.
15:45 - 16:15 BUSNES Y BLAID: CB1: Ffioedd Cofrestru i Aelodau ar gyfer Cynhadledd 2015 CB2: Cadarnhau Penderfyd gan y Gweithgor Cenedlaethol i Benodi Cadeirydd ac Aelodau Newyddi Banel Apelio Cymru CB3: Cadarnhau Penodiadau Llwyddol i'r Panel Adolygu Cyfansoddiadol CB4: Gwelliant Cyfansoddiadol: Swyddog Amrywiaeth - Aelodaeth Pwllgor CB5: Gwelliant Cyfansoddiadol: Prosesau Disgyblu'r Blaid	15:45 - 16:30 SESIWN YMGYNGHORI: Anghydraddoldeb	15:45 - 16:30 HYFFORDDIANT: Ydych chi'n Ennill? <i>Tim Pollard / Ben Hudson</i> Yr offer a thechnegau gorau ar CONNECT i'ch helpu chi i weld os yw eich ymgyrch chi ar y drywydd cywir.
16:15- 16:30 CYNNIG TESTUNOL / BRYNS		
16:30 - 17:30 BUSNES Y BLAID: Hystingau: Ymgeiswyr ar gyfer Llywydd y Blaid Ffederal		
	17:30 ARATH: Kirsty Williams CBE AC (Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)	

CYNIGION POLISI

CP1. Llywodraeth Leol Effeithiol ac Atebol

Pwllgor Polisi

Mae'r Gynhadledd yn nodi:

1. Y rhaglith i gyfansoddiad y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n ynganu ein hymrwymiad i "hyrwyddo system lewyrchus o lywodraeth leol ddemocrataidd lle y gwneir penderfyniadau ac y cyflawnir gwasanaethau ar y lefel fwyaf lleol sy'n ddichonadwy."
2. Y pwysau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a'r her o gynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus priodol.
3. Y ffordd y mae'r cyhoedd wedi'u datgysylltu bron drwy'r wlad i gyd oddi wrth bob lefel o lywodraeth, proffil demograffig anghynrychioliadol cynghorwyr, y ganran isel sy'n pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, ac agwedd drahaus rhai cynghorau yng Nghymru tuag at faterion o dryloywder ac atebolrwydd.
4. Argymhellion Comisiwn Williams, yn cynnwys cynigion i orfodi uno prif gynghorau Cymru yn unol ag un patrwm sengl a heb ymgynghoriad cyhoeddus, a bwriad Llywodraeth Lafur Cymru o weithredu'r argymhellion hyn.
5. Bod y rhan fwyaf o gyfraniadau tuag at sesiwn ymgynghori yng Nghynhadledd Wanwyn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a chyfraniadau tuag at gyfarfodydd ymgynghori â chynghorwyr a selogion wedi gwrthwynebu'n gryf gynigion Williams, a dangosasant eu cefnogaeth i gryfhau haen gymunedol llywodraeth.

Mae'r Gynhadledd yn credu:

1. Y dylid gweithredu grym ar y lefel isaf yn gydnaws â gweithredu effeithiol a rheolaeth ddemocrataidd.
2. Bod angen diwygio llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau'i bod yn effeithiol ac yn atebol, a all gynnwys uno rhai cynghorau, ond y dylid cael cydsyniad pobl leol i greu cynghorau newydd ac y dylent adlewyrchu ardaloedd ystyrion.
3. Na fyddai ad-drefnu prif gynghorau yn y ffurf a gynigir gan Adroddiad Williams yn mynd i'r afael ag anghenion llywodraeth leol yng Nghymru, ac nad yw'n cael ei gefnogi gan bobl Cymru.
4. Bod angen datblygu cynigion eraill gwahanol ar gyfer ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru trwy ymgynghori â'r cyhoedd, gyda'r nod gyffredinol o ddod â llywodraeth leol yn nes at y bobl gan hefyd hwyluso rheolaeth strategol briodol a modd cost effeithiol o ddarparu gwasanaeth.
5. Nad yw ad-drefnu ar raddfa fawr, sydd yn anochel yn peri aflonyddu ac sy'n llesteirio cynllunio gwasanaethau dros y cyfnod hwy, yn cael ei wneud yn y ffordd orau yn ystod cyfnodau o'r pwysau ariannol mwyaf dirifol.
6. Bod amrywiaeth economaidd, cymdeithasol a daearyddol Cymru'n golygu nad oes yna ateb 'un maint i bawb' ar gyfer llywodraeth leol, ac y gall gwahanol fodolau o lywodraeth leol fod yn briodol mewn gwahanol rannau o Gymru.
7. Bod angen cymryd y cyfle i ailystyried pwy sy'n darparu gwasanaethau allweddol ar lefel leol ac y dylai hyn gynnwys ystyried datganoli rhagor o rymoedd a swyddogaethau oddi wrth Gynulliad Cymru i brif gynghorau, ac oddi wrth brif gynghorau i gynghorau haen is.
8. Bod mynd â llywodraeth leol yn nes at y bobl yn gofyn am gryfhau haen gymunedol llywodraeth yng Nghymru, ond bod gallu cynghorau cymuned a chynghorau tref i ymgymryd â mwy o rôl mewn modd effeithiol ac atebol yn amrywio'n enfawr.

9. Bod angen dull gweithredu mwy strategol tuag at gynllunio a datblygu economaidd yn ninas-ranbarth Caerdydd i'w galluogi i gystadlu'n effeithiol â dinas-ranbarthau llwyddiannus ledled Ewrop.
10. Bod angen diwygio sylweddol ar Dreth y Cyngor er mwyn sicrhau system deg i bobl Cymru, yn ogystal â ffrwd refeniw ar gyfer cynghorau lleol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da.
11. Dylai ad-drefnu llywodraeth leol olygu y byddai cyfanrif y cynghorwyr yng Nghymru yn gostwng, a bod angen gweithredu i gynyddu amrywiaeth cefndiroedd o ble daw cynghorwyr i adlewyrchu poblogaeth Cymru'n well.

Mae'r Gynhadledd yn Cymeradwyo Papur Polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, *Llywodraeth Leol Effeithiol ac Atebol*.

Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:

1. Gwrthod cynigion penodol Adroddiad Williams ar gyfer ad-drefnu prif gynghorau yng Nghymru.
2. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion gwahanol ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru fydd yn cydbwyso buddiannau rheoli strategol effeithiol a chyflawni gwasanaeth ag atebolrwydd lleol, ac a gaiff gydsyniad amlwg y cyhoedd.
3. Grymuso prif gynghorau i gytuno'n wirfoddol i uno trwy bleidlais mwyafrif aelodau'r ddau awdurdod, ac yn amodol ar gael ei gadarnhau gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.
4. Ym mhob rhan arall o Gymru, gofyn i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol adolygu strwythur prif lywodraeth leol, yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, a llunio cynigion ar gyfer ad-drefnu prif gynghorau yn seiliedig ar egwyddorion effeithlonrwydd, atebolrwydd a chyd-fynd ag ardaloedd daearyddol ystyrlon.
5. Cryfhau haen gymunedol llywodraeth trwy rymuso cynghorau cymuned a thref achrededig i fod â rôl gryfach mewn llunio penderfyniadau a darparu gwasanaethau lleol, a thrwy gyfuno cynghorau cymuned llai i fod yn gynghorau *cantref* mwy, yn cwmpasu ardaloedd ystyrlon, gyda mwy o gapasiti i weithredu.
6. Grymuso cymunedau lleol mewn ardaloedd nad oes ganddynt ar hyn o bryd gyngor cymuned na chyngor tref, trwy hyrwyddo mechanweithiau i sefydlu cynghorau lleol newydd, a thrwy alluogi cymdeithasau cymunedol a chymdogaethol priodol i gofrestru fel cyrff cymwys ar gyfer rheoli'n ddirprwyedig rai o wasanaethau'r cynghorau, ac ymgynghori statudol ar geisiadau cynllunio a materion penodedig eraill.
7. Trosglwyddo cyfrifoldeb tros gynlluniau adfywio lleol i gynghorau cymuned, tref neu *gantref* i sicrhau atebolrwydd lleol priodol.
8. Diwygio awdurdodau parciau cenedlaethol trwy gyflwyno aelodau a etholir yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y cydbwysir cadwraeth amgylcheddau naturiol a diwylliannol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ag atebolrwydd lleol a gweithgareddau economaidd cynaliadwy.
9. Cefnogi'r model ar gyfer diwygio treth y cyngor a amlinellir yn y papur gan Gerald Holtham, *Taxation for Wales*, a chynnal adolygiad o'r strwythur bandio yng Nghymru er mwyn datblygu ffynhonnell refeniw deg a chynaliadwy ar gyfer cynghorau.
10. Y dylid ethol aelodau prif gynghorau trwy'r bleidlais sengl drosglwyddadwy mewn wardiau aml aelod (neu, mewn eithriadau, trwy'r bleidlais amgen mewn wardiau un aelod mewn rhai ardaloedd gwledig dwysedd isel).
11. Rhoi rheidrwydd ar bob cyngor i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'u strwythurau, amserleni cyfarfodydd, archebion sefydlog ac arferion gwaith i sicrhau nad oes unrhyw grŵp cymdeithasol o dan anfantais annheg yn eu gallu i wasanaethu fel cyngphonydd.

12. Rhedeg ymgyrch hyrwyddo i annog cynghorau cymuned a thref i ddefnyddio'u grym i gyfethol cynrychiolwyr ieuencid sydd heb hawliau pleidleisio, ac i annog pob cyngor i ymgysylltu'n agosach â chynghorau ieuencid lleol.

CP2. Buddsoddi mewn Atal

Democratiaid Rhyddfrydol Caerffili, Islwyn a Merthyr Tudful

Mae'r Gynhadledd yn credu:

1. Y dylai fod gan bobl hawl i fyw bywydau iachach, dedwyddach ac annibynnol ac y dylai fod gan bawb foddy cyfartal o gael at iechyd da, cyfleoedd economaidd a chyfleoedd cymdeithasol.
2. Bod y cyfleoedd hyn yn dal i gael eu gwarafun i ormod o unigolion a chymunedau.
3. Bod polisiau a dargedir i atal problemau cymdeithasol yn helpu i hybu lles, yn lleihau anghenion cymorth ac yn helpu unigolion a chymunedau i gyflawni'u potensial llawn.
4. Bod gormod o wariant y llywodraeth yn cael ei gyfeirio tuag at ymateb i broblemau cymdeithasol yn hytrach na'u rhwystro.
5. Y gall buddsoddi mewn atal leihau y gost dros y cyfnod hwy o fynd i'r afael â materion cymdeithasol, megis poblogaeth sy'n heneiddio, cymorth lles, trosebau a chynhesu byd-eang.
6. Dylai llunwyr polisiau sianelu'u hymdrehigion tuag at adeiladu cymdeithas sy'n rhwystro problemau cymdeithasol rhag codi yn y lle cyntaf yn hytrach na chymdeithas sy'n ymlafnio â'u canlyniadau.

Mae'r Gynhadledd yn croesawu:

1. Casgliad sefydliadau fel Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) a'r Tasglu Gweithredu Cynnar sef y dylai'r llywodraeth fuddsoddi mwy o arian mewn polisiau a mentrau ataliol.
2. Barn y sefydliadau hyn yw bod gan bolisiau sydd wedi'u hanelu at rwystro problemau cymdeithasol y potensial i arwain at well canlyniadau i unigolion ac i ddychwelyd mwy o werth am wariant cyhoeddus.

Mae'r Gynhadledd yn nodi â phryder:

1. Bod lefelau gwariant cyhoeddus ar bolisiau ataliol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod presennol o gyni.
2. Bod y farn gyhoeddus yn aml yn cymell gwleidyddion i ganolbwytio ar ganlyniadau a llwyddiannau byrdymor yn hytrach nag ar ystyriaethau cyfnod hwy.
3. Bod rhwystrau megis cylchoedd cynllunio byrdymor, dim digon o fuddsoddi, cyndynrwydd i rannu gwybodaeth ac i gydweithio a ffyrdd aneffeithiol o gasglu tystiolaeth yn llesteirio ymdrehigion y llunwyr polisi hynny sy'n ceisio datblygu polisi cymdeithasol ataliol.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru i:

1. Ddarparu arweiniad gwleidyddol ar y mater hwn trwy ymrwymo i gynyddu buddsoddiad yn raddol mewn mentrau sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol yn eu bôn.
2. Cefnogi arloesiadau polisi sy'n canolbwytio ar weithgareddau lleol sy'n ceisio atal problemau cymdeithasol, a datgloi potensial cyfnod hir pobl.
3. Ystyried ffyrdd y gellir atal, yn ogystal â goresgyn problemau cymdeithasol wrth ddatblygu holl bolisiau'r blaid yn y dyfodol.
4. Cynnwys yr ymrwymiadau hyn ym Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2015 ar gyfer Cymru.

Atodiad: Enghreifftiau o Fentrau Ataliol a'u Harbedion Costau Cysylltiedig

Y Rhaglen Adfer Darllen

Mae Adfer Darllen (RR) yn rhaglen ddwys fyrdymor o ymyrraeth mewn llythrenedd ar gyfer plant ysgol gynradd sy'n profi problemau â darllen ac ysgrifennu ar ôl eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol.

Mae yna dros 60 o ganolfannau Adfer Darllen trwy'r Deyrnas Unedig, Iwerddon a Denmarc i gyd. Mae'n cynnwys gwersi un i un dwys dyddiol am hanner awr tros gyfnod o thuag 20 wythnos, a gynhelir ag athro llythrenedd hyfforddedig.

Dangoswyd fod llythrennedd gwael yn anfantais ddifrifol yn ddiweddarach mewn bywyd, gan wneud drwg yn neilltuol i gyfleoedd gwaith: gallai'r gost i gymdeithas tros hyd oes unigolyn fod cyfuwch â £64,000, oddeutu £2 biliwn i bawb yr effeithir arnynt. Amcangyfrifir fod y rhaglen yn arbed rhwng £11 a £17 am bob £1 a warir.

www.readingrecovery.ioe.ac.uk/

Cynllun 'Byddwch yn Weithgar' Birmingham

Mae 'Byddwch yn Weithgar' yn gynllun sy'n cynnig dosbarthiadaunofio, dosbarthiadau ymarfer neu'r defnydd o gampfa am ddim, a rhai gweithgareddau cymunedol i holl drigolion Birmingham. Ei nod yw goresgyn anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd cysylltiedig; canfu dadansoddiad diweddar o fuddion costau bod pob £1 a fuddsoddir yn 'Byddwch yn Weithgar' ar gyfartaledd yn creu £21.30 mewn buddion.

Mae'r cynllun yn caniatáu i bobl ddefnyddio cyfleusterau a reolir gan y cyngor am ddim yn ystod amseroedd tawel, a chaiff ei ariannu'n bennaf trwy'r GIG lleol, gyda chyngor y ddinas yn cyfrannu 15% o'r gost. Yn 2011/12, roedd yna 1,615 o oriau o weithgareddau am ddim yr wythnos.

Mae ganddo thua 300,000 o ddefnyddwyr cofrestredig (traean o'r boblogaeth), a 140,000 o ddefnyddwyr gweithredol pob blwyddyn. Dengys gwerthusiadau ei fod wedi cynyddu'r nifer o oedolion sy'n gorfforol weithgar ers iddo gael ei gyflwyno.

Mae'r rhaglen yn costio £22.0 miliwn tros bum mlynedd, ac awgrymai'r dadansoddiad fod y buddion a grëir gan Byddwch yn Weithgar yn £445.2 miliwn yn fwy na'i chost. Y rhan fwyaf o hyn yw gwelliant yn ansawdd bywyd y cyfranogwyr (£377.2 miliwn), â'r gweddill yn cael ei rannu rhwng arbedion arian (gan mwyaf i'r Awdurdod Iechyd Lleol) o £28.7 miliwn ac enillion arbedion costau a chynhyrchaeth i'r sectorau cyhoeddus a phreifat o £39.2 miliwn.

Mae'r buddion hyn yn crynhoi gan mwyaf i'r awdurdod iechyd lleol, sy'n adlewyrchu'u cyfraniad at ariannu'r rhaglen. Fodd bynnag, mae'r effaith yn hirdymor, gyda'r rhan fwyaf o fuddion yn digwydd ar ôl y pum mlynedd gyntaf.

www.birmingham.gov.uk/beactive

Kickz

Dechreuodd Kickz fel prosiect ar y cyd rhwng yr Uwch Gynghrair a'r Heddlu Metropolitan, â'r syniad o ddefnyddio clybiau pêl-droed proffesiynol i helpu i ddarparu sesiynau pêl-droed gyda phobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae yn awr yn rhychwantu 131 o brosiectau yn ymwneud â 43 o glybiau a thros 50,000 o bobl ifanc.

Mae naw deg un y cant o'r rhaglenni'n weithredol ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Fe'i cyflawnir â chymorth 5,000 o wirfoddolwyr, y mae llawer ohonynt yn bobl ifanc eu hunain, ac mae hefyd yn cynnig gweithdai ar faterion fel ymwybyddiaeth o gyffuriau, gwirfoddoli, bwyta'n iach, gyrfaeoedd, ac arfau. Mae hefyd yn galluogi'r heddlu a gweithwyr ieuengtid i ddatblygu cysylltiadau â phobl ifanc a gwell dealltwriaeth o'u pryderon.

Ym Mharc Elthorne yng Ngogledd Llundain, mae'r prosiect lleol, a weithredir gydag Arsenal, wedi esgor ar ddwy ran o dair o ostyngiad mewn troseddu o fewn blwyddyn. Canfu gwerthusiad gan y *New Philanthropy Capital* fod pob £1 a fuddsoddwyd yn y prosiect wedi creu £7 mewn gwerth i'r gymuned leol, yn bennaf mewn arbedion i ddioddefwyr trais gan bobl ifanc a gangiau, a arferai fod yn gyffredin yn yr ardal.

Daw cyllid craidd y prosiect oddi wrth yr Uwch Gynghrair a Heddlu'r Metropolitan, ac mae'n denu cyllid partneriaid i gydategu hyn.

www.addison.ceros.com/kickz/kickz/5/year/celebration/fiveyearcelebration/

Cefnogaeth Gartref Ysgolion

Mae Cefnogaeth Gartref Ysgolion (SHS) yn gosod staff arbenigol mewn ysgolion, sy'n gweithio â phobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gael y gorau o'u haddysg, gan ganolbwytio ar bobl ifanc sy'n ymlafnio ag ymddygiad, presenoldeb neu gyflawni. Yn 2009/10, darparodd SHS wasanaethau i dros 700 o ysgolion a chefnogaeth ddwys trwy'i 150 o ymarferwyr i 220 o'r ysgolion hyn mewn 23 o awdurdodau lleol, gan mwyaf yn Llundain. Yn gyfan gwbl, cefnogasant 20,000 o blant a theuluoedd.

Mae SHS yn gweithio'n agos â'r teulu yn ogystal â'r person ifanc, a dangoswyd eu bod yn lleihau triwantiaeth a gwaharddiadau parhaol, eu bod yn cynyddu cyrhaeddiad, yn gwella ymddygiad, yn arwain at fwy o gyfraniad gan rieni, ac fe'u cefnogir yn frwd gan brifathrawon ac athrawon ysgol.

Amcangyfrifwyd fod cost gwaharddiad parhaol yn £63,000, ac amcangyfrifodd un adroddiad fod SHS wedi arbed £1.24 am bob £1 a warir trwy'u heffaith ar atal gwaharddiadau. Awgrymodd adroddiad gwahanol fod yr SHS yn gyfan gwbl wedi arbed £21.14 i gymdeithas am bob £1 a warir.

<http://www.schoolhomesupport.org.uk6/>

Cynllun "Stay Well at Home" Kingston

Mae'r Cynllun yn targedu pobl sydd mewn perygl o golli'u hannibyniaeth ac mae'n eu cefnogi i ddal i fod yn iawn ac i barhau i fyw gartref. Amcangyfrifodd astudiaeth gan yr SROI (Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad) arbedion o £268,000 mewn cyllidebau'r sector cyhoeddus - oddeutu tair gwaith y buddsoddiad a wnaed gan NHS Kingston wrth ariannu'r cynllun peilot.

www.ageconcernkingston.org/uploads/2012/11/ACK-SWaH-reportweb1.pdf

Ffynonellau

www.nao.org.uk/publications/1213/early_action_across_government.aspx

<http://www.community-links.org/earlyaction>

CP3: Adeiladu Economi Cryfach

Pwllgor Polisi

Mae'r Gynhadledd yn nodi:

1. Bod llywodraethau Cymru, y naill ar ôl y llall, wedi methu â mynd i'r afael â'n tawd datblygiad craidd, a'u bod wedi'n gadael ag economi, sylfaen sgiliau a seilwaith nad ydynt yn barod am y dyfodol;
2. Bod cyfradd diweithdra yng Nghymru wedi cynyddu 3.6% rhwng 2007 a 2012;
3. Bod Cymru'n parhau i fod â'r gyfradd isaf o Werth Ychwanegol Gros yn y Deyrnas Unedig;
4. Yr heriau sy'n wynebu economi Cymru fel ein diffyg argaeedd cyfalaf, lefel sgiliau wan, a'n cysylltedd ymylol a gwael; a'r
5. Cyfleoedd nodedig ar gyfer twf yn economi Cymru fel ein hagosrwydd at farchnadoedd y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, pocedi presennol o arloesedd a rhagoriaeth, a'n cynhwysedd hyfforddi.

Mae'r Gynhadledd yn credu:

1. Y dylai'r llywodraeth weithredu i gatalyddu sector preifat cryf;
2. Bod yn rhaid inni adeiladu ein seilwaith, ein sgiliau a'n gallu i allforio er mwyn adeiladu economi cryfach a chymdeithas decach i Gymru;
3. Bod yn rhaid inni fod yn wlad fwy hyderus a rhyngwladol ein naws, ac agor Cymru i'r byd a'i botensial ar gyfer mewnfuddsoddi a chyfleoedd allforio;
4. Bod yn rhaid inni roi diwedd ar y diwylliant o 'un maint i bawb', a gweithio i greu'r fframweithiau sy'n galluogi cymunedau lleol i greu'u datrysadau'u hunain;
5. Bod yn rhaid inni siarad ar ran y busnesau brodorol, yn enwedig y busnesau bach a chanolig a microbusnesau sydd â rôl mor hanfodol yn economi Cymru, a chefnogi'u llwyddiant a'u twf economaidd trwy ddarparu'r fframwaith iddynt ganfod eu datrysadau'u hunain; a
6. Bod ar Lywodraeth Cymru angen creu amgylchedd trwy'r hyn y gall y sectorau preifat, cyhoeddus, nid-er-elw a chymunedau lleol gydweithio i ddod â buddion economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru.

Mae'r Gynhadledd yn cymeradwyo Papur Polisi Democraidaid Rhyddfrydol Cymru, sef *Adeiladu Economi Cryfach*.

Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:

1. Darparu strategaeth economaidd gytbwys, integredig ac a arweinir gan allforio, a goresgyn datblygiad annigonol Cymru trwy ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru er mwyn sicrhau twf yn economi Cymru;
2. Gwella modd o gael at gyfalaf a chyllid trwy:
 - a. greu Banc Datblygu Cymru sydd wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau bach i gael arian a chymorth; datblygu cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys allforio a mewnfuddsoddi; ac ariannu prosiectau seilwaith sylweddol;
 - b. annog lledaeniad darparwyr cyllid gwahanol; a
 - c. chefnogi datblygu cwmniâu cymunedol cydfuddiannol a chwmniâu cydweithredol dan arweiniad y gymuned.
3. Gwella modd o gael at farchnadoedd trwy:
 - a. ddatblygu rhwydweithiau o gyngorwyr i ddarparu cymorth busnes proffesiynol;

- b. penodi Hyrwyddwr Rhwydwaith i ryng-gysylltu ac i integreiddio gwahanol gyfranogwyr yn economi Cymru ac i fod yn gyfrifol am strategaeth wasgaru i Gymru;
 - c. llunio strategaeth allforio bendant i Gymru i baru dyfeisgarwch y sector preifat â chefnogaeth y sector cyhoeddus; ac
 - ch. annog awdurdodau lleol i ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau bach a chanolig lleol fel rhan o'u strategaeth gaffael.
4. Cefnogi ein pobl i wella'u sgiliau ac i fanteisio ar eu harloesedd trwy:
- a. fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant;
 - b. ym wreiddio sgiliau ehangach, megis entrepreneuriaeth, arweinyddiaeth a rheoli, yn y cwricwlwm; a
 - c. gwella'r ffordd o fasnacheiddio arloesedd yn sector addysg uwch Cymru.
5. Cefnogi twf ledled holl ranbarthau Cymru trwy:
- a. gefnogi mentrau dinas-ranbarthau a sicrhau sail statudol ddigonol iddynt;
 - b. datganoli mwy o rymoedd tros ddatblygu economaidd o Fae Caerdydd yn uniongyrchol i gymunedau;
 - c. cefnogi trefydd marchnad Cymru, sef canolfannau traddodiadol ein cymunedau;
 - ch. cefnogi'r defnydd o Ariannu Cynyddrannol Treth ar gyfer awdurdodau lleol, ardaloedd menter ac eraill;
 - d. diwygio Ardaloedd Menter, gan gynnwys trwy gynnig 100% o ddisgownt yn yr ardrethi busnes dros gyfnod o bum mlynedd i fusnesau sy'n symud i neu sy'n dechrau busnes mewn ardal fenter;
 - dd. datblygu ein heonomi a'n seilwaith digidol;
 - e. ailwampio seilwaith trafnidiaeth Cymru'n sylfaenol ac anfon y neges i fuddsoddwyr ac i entrepreneuriaid fod Cymru'n 'agored i fusnes' trwy:
 - i. gefnogi trydaneiddio Llinell Reilffordd Arfordir y Gogledd a chyhoeddi amserlen ar gyfer trydaneiddio llinellau rheilffyrrd Cymru'n llawn;
 - ii. datblygu Awdurdodau Cludiant Teithwyr i reoleiddio trafnidiaeth gyhoeddus ac i sicrhau darpariaeth addas, yn cynnwys gwasanaeth llwybrau bysiau mewn ardaloedd gwledig a thlawd ac i ddatblygu Metro De Cymru;
 - iii. datblygu rhwydwaith cludo nwyddau eang sydd â mynediad i'r prif borthladdoedd.
6. Ei wneud i gyd i weithio gyda'i gilydd trwy:
- a. ddatblygu Strategaeth Dwf Genedlaethol drosfwaol a hirdymor sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cynhyrchu twf, i'w chyflawni gan Banel Strategaeth Dwf fyddai'n cynnwys pob rhanddeiliad;
 - b. ystyried creu Siambrau Masnach statudol fydd ag annibyniaeth weithredol ar Lywodraeth Cymru
 - c. sefydlu Pwyllgor Polisi Rheoliadol Cymreig i ddarparu asesiad annibynnol o reoliadau newydd posib' a chwtogi rheoliadau ar fusnesau llai o faint;
 - ch. creu Trysorlys Cymreig a all ddarparu data economaidd manwl gywir; a
 - d. sefydlu comisiwn i archwilio anghenion sgiliau Cymru dros y cyfnod hir.
7. Lansio adolygiad radical a systematig o'r ffordd y gweithredir ardrethi busnes yng Nghymru.

CP4. Ad-dalu'r Diffyg Democraidd *Pwyllgor Polisi*

Mae'r Gynhadledd yn nodi:

1. Bod canran y pleidleiswyr a bleidleisiodd yng Nghymru ar ei hisaf erioed.
2. Bod gan Gymru'r ganran isaf o bleidleiswyr etholiadol o'r tair gwlad ddatganoledig.
3. Bod cyflwyno cofrestr pleidleiswyr unigol yn cynnig cyfle am ymgysylltu mwy cyffredinol a'r posibilrwydd y bydd rhai carfanau, yn cynnwys pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd heb gartref parhaol, yn cael eu hepgor o'r gofrestr.
4. Cymru yw'r unig wlad ddatganoledig nad yw'n defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer eu hetholiadau lleol.
5. Nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddigon o gapasiti i graffu'n effeithiol ar yr ystod lawn o rymoedd sydd gan Gymru yn awr, a'r grymoedd y bydd ganddynt yn go fuan.
6. Ar hyn o bryd, nad oes gan bobl Cymru ddull o gael gwared â chynrychiolydd etholedig sydd wedi methu â chynnal y safonau y disgwyli'r ohono/ohoni mewn swydd.
7. Na oruchwylir y Cod Gweinidogol gan gorff annibynnol ac o'r herwydd, nid yw Gweinidogion sydd wedi torri'r cod yn gorfod bod yn atebol.
8. Bod Comisiwn Richard a Chomisiwn Silk wedi amlinellu cynigion ar gyfer grymoedd a gallu craffu cryfach i Gymru.
9. Canlyniad y refferendwm yn yr Alban.

Mae'r Gynhadledd yn credu:

1. Nad yw pobl Cymru wedi ymddieithrio oddi wrth, ond wedi'u dadrithio gan y systemau gwleidyddol anghynrychioliadol yng Nghymru.
2. Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n bwysig i ddyfodol democrataidd Cymru.
3. Bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb tros sicrhau bod gan bawb gyfle i gofrestru i bleidleisio, pa bryd bynnag y maent yn ymwneud â'r llywodraeth neu â chorff cyhoeddus.
4. Y dylai swyddogion etholedig fod yn atebol am eu gweithredoedd.
5. Y dylid cynnal pob etholiad yng Nghymru ar system bleidleisio deg.
6. Y dylai Cymru gael mwy o gyfryngau sy'n ymroddi i graffu ar ac i roi cyhoeddusrwydd i wleidyddiaeth yng Nghymru.

Mae'r Gynhadledd yn cymeradwyo Papur Polisi Democraidd Rhyddfrydol Cymru, *Ad-dalu'r Diffyg Democraidd*.

Mae'r Gynhadledd yn galw am:

1. Gynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad er mwyn darparu'r gallu i graffu'n ddigonol ar Lywodraeth y Cynulliad a'r gallu i gynrychioli'u hetholwyr yn gyfrifol.
2. Adolygiad o'r Cod Gweinidogol a'i arolygiaeth a'i sancsiynau i sicrhau bod Gweinidogion yn glynw wrth safon uchel a'u bod yn llwyr atebol am eu gweithredoedd.
3. System o gael gwared ag Aelodau'r Cynulliad i'w sbarduno gan ddeiseb gan yr etholwyr.
4. Bob etholiad yng Nghymru, yn cynnwys etholiadau cynghorau lleol, etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau Ewropeaidd, i'w cynnal gan ddefnyddio system bleidleisio deg, sef y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy gan amlaf.
5. Dylid gostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru ar gyfer pob etholiad i 16.
6. Y cyfle i ddynodi dewis amgen o ymgeiswyr ar bapur y tugel i fod ar gael ym mhob etholiad.

7. Comisiwn i foderneiddio'r system bleidleisio, yn cynnwys cofrestru ar yr un diwrnod, pleidleisio cynnar ac opsiynau eraill i wneud pleidleisio'n fwy hygrych.
8. Cryfhau addysg wleidyddol mewn ysgolion.
9. Cynnal sesiynau cofrestru pleidleiswyr ym mhob sefydliad addysgol priodol ar gyfer addysg ôl-16 yn flynyddol.
10. Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i barhau i geisio cael rhagor o rymoedd i Gymru.
11. Ymgrych o'r newydd tuag at Deyrnas Unedig Ffederal.

CYNIGION BUSNES

CB1. Ffioedd Cofrestru i Aelodau ar gyfer Cynhadledd 2015

Pwyllgor y Gynhadledd

Mae'r Gynhadledd yn nodi:

1. Y cytunwyd arno gan y Gynhadledd yn 2010 yr eid â'r cyfraddau arfaethedig ar gyfer Cofrestru Aelodau'r flwyddyn ganlynol i Gynhadledd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn flynyddol i Gynhadledd yr Hydref i'w cymeradwyo.
2. Yn 2013, codwyd y cyfraddau, yn unol â chwyddiant.
3. Bod y gyfradd uchaf gyfredol i Aelodau Safonol am fynychu'r Gynhadledd ar hyn o bryd yn £52 a'i bod ar gael am gyfnod o bythefnos cyn ac yn ystod y Gynhadledd.
4. Bod y gyfradd ostyngedig o 15% o'r Gyfradd Safonol uchaf ar gael rhwng chwe wythnos a phythefnos cyn y Gynhadledd.
5. Bod cyfradd ostyngol bellach o 30% o'r Gyfradd Safonol uchaf ar gael am hyd at chwe wythnos cyn y Gynhadledd.
6. Bod y cyfraddau Consesiynol i Aelodau am fynychu'r Gynhadledd ar hyn o bryd wedi'u gosod ar 50% o'r gyfradd berthnasol i Aelodau Sylfaenol sy'n bodoli ar adeg cofrestru.
7. Y bydd yna, yn ychwanegol at y cyfraddau uchod, ddisgownt pellach o 50% i aelodau sy'n mynychu'u Cynhadledd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gyntaf.

Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:

1. Ar gyfer 2015, y bydd y gyfradd i Aelodau Sylfaenol am fynychu'r Gynhadledd yn parhau yn £52 ac y bydd y cyfraddau ar ddisgownt a chyfnodau'r disgowntiau hynny sydd ar gael yn parhau yn ddifyfnewid.

CB2. Cadarnhau Penderfyd Pwyllgor y Weithrediaeth

Genedlaethol i Benodi Cadeirydd Newydd ac Aelodau o

Banel Apelio Cymru

Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol

Mae'r Gynhadledd yn nodi:

1. Bod Gareth Morgan, Richard Tyler a Hugh Clark wedi penderfynu, ar ôl cyfnodau meithion o wasanaeth, i roi'r gorau iddi fel aelodau o Banel Apelio Cymru.
2. Mai Gareth Morgan oedd Cadeirydd Panel Apelio Cymru.
3. Bod yna, yn cynnwys yr ymddiswyddiadau hyn, hyd at wyt o leoedd ar y panel i'w llenwi a chadeirydd newydd i'w benodi, i gwblhau cyfnod y swydd a ddaw i ben ar yr 31^{ain} o Ragfyr, 2017.

Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:

1. Mynegi'i diolchiadau i Gareth Morgan, Richard Tyler a Hugh Clark am eu gwasanaeth i'r blaid trwy'u gwaith ar Banel Apelio Cymru.
2. Cadarnhau penderfyniad Pwyllgor y Weithrediaeth Genedlaethol i benodi'r Arglwydd German yn Gadeirydd Panel Apelio Cymru.
3. Cadarnhau penderfyniad Pwyllgor y Weithrediaeth Genedlaethol i benodi'r aelodau canlynol o'r panel:

- a. Brian Willott (Trefynwy)
- b. David Mawdsley (Dyffryn Clwyd)
- c. Alison Brebner (Wrecsam a De Clwyd)
- ch. Robin Baker (Sir y Fflint)
- d. David Sharman (Brycheiniog a Sir Faesyfed)
- dd. Mike Day (Abertawe a Gŵyr)

Atodiad: Bywgraffiadau (nid yw'n rhan o'r cynnig)

Yr Arglwydd German: Cyn-Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Robin Baker: Is-gadeirydd Democratiaid Rhyddfrydol Sir y Fflint ac roedd, tan yn ddiweddar, yn Arweinydd Carfan y Democratiaid Rhyddfrydol ar Gyngor Sir y Fflint. Roedd o gynt wedi bod yn Drysorydd i Bwyllgor Rhanbarthol Etholiadol y Cynulliad (AERC) Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Cymru, Aelod o Bwyllgor y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yn Rheolwr Rhanbarthol i un o Aelodau Cynulliad Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Cymru. Mae ganddo gefndir proffesiynol oedd yn ymwnneud â gwerthuso tystiolaeth a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y ffeithiau a gyflwynid.

Alison Brebner: Fe'i ganwyd yn yr Alban, bu'n byw yng Ngogledd Cymru am 32 o flynyddoedd. Ysgrifennydd Democratiaid Rhyddfrydol Wrecsam a De Clwyd. Cyfreithwraig mewn practis preifat, wedi'i lleoli yn Wrecsam. Rheolwr gyfarwyddwr y cwmni ar hyn o bryd.

David Mawdsley: cyfreithiwr ymgylfreitha wedi ymddeol, sydd wedi bod yn aelod gweithgar o'r blaid er 1965. Roedd yn Gadeirydd Plaid Ryddfrydol Lerpwl am gyfnodau meithion yn yr 1970au a'r 1980au, pan oedd o'n gweithredu fel asiant dros ymgeiswyr llwyddiannus niferus mewn etholiadau ar gyfer Cyngor y Ddinas. Dyma'r cyfnod y cymerodd y blaids reolaeth ar Gyngor y Ddinas am y tro cyntaf yn 1973, ac am y tro cyntaf ers cenedlaethau cystadlodd y blaids ym mhob un o'r wyt sedd Seneddol yn y Ddinas yn y ddau Etholiad Cyffredinol yn 1974. Ar ôl symud o Lerpwl, roedd o'n gysylltiedig â chymdeithas etholaeth Crosby, ac ers iddo ymddeol i Ogledd Cymru, mae wedi bod yn aelod gweithgar o'r blaids leol yn Nyffryn Clwyd, y mae'n Gadeirydd arni ar hyn o bryd.

